# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2018-2019

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **08 Mai 2019.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes iddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Will Evans | **Adran Etholiadol:** | Pontybrenin |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | Aelod y Cabinet - Cymunedau Cryfach (wedi'i rannu ag Elliott King) |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cynhaliais gymorthfeydd cyngor misol yng Nghlwb Pêl-droed Pentre'r Ardd rhwng 11.30am a 12.30pm (o leiaf awr) gan ymdrin â'r holl faterion/gwynion a gyfeiriwyd yn brydlon. Mi es i hefyd i gymorthfeydd lleol yr heddlu a chyfarfodydd misol Cyngor Tref Llwchwr, y mae'r cofnodion ar gael ar wefan y cyngor yn www.llwchwrtowncouncil.gov.uk. Mae'r cyngor tref yn gwasanaethu ac yn cefnogi preswylwyr wardiau Pontybrenin, Pentre'r Ardd a Llwchwr, trwy ychwanegu at rai o'r gwasanaethau a ddarperir gan Ddinas a Sir Abertawe. Er enghraifft, cyfleusterau hamdden yn y Neuadd Les, basgedi crog ac arddangosfeydd blodau gwyllt, Gorymdaith Llusernau'r Nadolig ac arddangosfa tân gwyllt ar y cyd â Chyngor Tref Gorseinon, darparu seddi cymunedol a dyfarnu grantiau ariannol i achosion teilwng yn ardal Llwchwr.

Lluniais a dosbarthais gylchlythyr a oedd yn amlygu materion lleol, a bûm yn ymdrin â nifer sylweddol o alwadau ffôn ac e-byst ar gyfer etholwyr, gan geisio cyngor a chymorth ar amrywiaeth o destunau. Rhoddais fy nghefnogaeth a gweithredais yn gadarnhaol lle bynnag y bu'r angen.

Roeddwn yn aml yn mynd am dro yn fy ward ac yn rhoi gwybod adrannau priodol o'r cyngor am ddiffygion megis tyllau yn y priffyrdd, lampau stryd heb eu goleuo, dodrefn stryd wedi'u difrodi a thipio anghyfreithlon gwasgarog er mwyn iddi weithredu ar unwaith.

Bûm yn ymweld â holl safleoedd ceisiadau cynllunio yn ward Pontybrenin a threfnais i ymweliadau lle y bu angen. Cysylltais yn rheolaidd â'r Tîm Heddlu Cymdogaeth lleol yng Ngorseinon gan gyfeirio cwynion preswylwyr megis goryrru, parcio diwahaniaeth, cerbydau modur yn achosi rhwystr diangen ar y brifffordd, baw cŵn a sbwriel. Hysbysais swyddogion gorfodi'r cyngor hefyd am gwynion ynghylch mynd yn groes i Orchmynion Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Llinellau Melyn) a chamddefnydd ohonynt gan ofyn iddynt fod yn bresennol yn yr ardaloedd hyn pan fo hynny'n briodol.

**Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.
Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

Mae portffolio Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Plant - Pobl Ifanc yn cynnwys amrywiaeth eclectig o ddyletswyddau gan gynnwys y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Diogelu, y Gwasanaethau Ieuenctid, y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, Magu Plant Corfforaethol, Hawliau'r Plentyn y Cenhedloedd Unedig a Phlant sy'n Derbyn Gofal.

Rwyf wedi gwasanaethu ar y cyrff canlynol:

Bwrdd Plant a Phobl Ifanc.
Bwrdd Magu Plant Corfforaethol.
Bwrdd Rheoli'r Tîm Troseddau Ieuenctid.
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol.
Ymddiriedolwr/Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Datblygu Gorseinon (Cadeirydd)
Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Tre Uchaf
Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Pontybrenin
Cyngor Tref Llwchwr
Ymddiriedolaeth Tref Casllwchwr (Is-gadeirydd)

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Treuliais ran helaeth o'm hamser yn siarad â Chynllunwyr ac etholwyr lleol am gynigion drafft Cynllun Datblygu Lleol 2010 - 2025 ar gyfer Datblygiadau Tai mawr ym Mhentre'r Ardd a Llewitha a'r effaith enfawr bosib ar isadeiledd, problemau traffig cysylltiedig a diffyg cyfleusterau iechyd lleol.
Yn dilyn archwiliad a chymeradwyaeth Arolygiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru, cymeradwywyd a mabwysiadwyd dogfen derfynol y CDLl gan Gyngor Dinas Abertawe ar 28 Mawrth, 2019.

Daeth Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Ffyrdd newydd ynghylch cyfyngiad pwysau o 7.5 tunnell ar gyfer cerbydau modur (Ac Eithrio Mynediad) ar Heol Abertawe, Pentre'r Ardd i rym ar 29 Mawrth 2019, yn lle'r Gorchymyn Traffig blaenorol a oedd yn ddiffygiol. Roedd y cam gweithredu hwn yn angenrheidiol oherwydd cwynion am gamddefnydd helaeth dros nifer o flynyddoedd gan goetsis yn teithio'n ôl ac ymlaen i Goleg Gŵyr, Pontybrenin. Ychydig o lwyddiant a gafwyd hyd yn hyn o ran ymdrechion i ddatrys y sefyllfa gyda phob parti.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

1) Rwyf wedi bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau cyfredol i ddatblygu'r cyswllt beicio 1.4km ym Mhontybrenin rhwng Pentre'r Ardd a Thre-gŵyr. (Llwybr 4 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol) Ar 19/6/19 cymeradwyodd Arolygiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru waith i adeiladu Llwybr Cerdded a Beicio dan Adran 38 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006. (Cyfeirnod COM/3222911). Bydd hwn yn ymuno â'r llwybr beicio presennol rhwng Pentre'r

Ardd a gorsaf drenau Tre-gŵyr dros Dir Comin Stafford a disgwylir i'r gwaith hwn cael ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol hon, 19/20.

2) Ym mis Gorffennaf 2018, yn ystod ein haf cynnes iawn, treuliodd 3 chriw o ymladdwyr Tân 10 awr yn brwydro i atal tân 2 hectar ar Dir Comin Mynydd Garn Goch a oedd yn difetha cynefinoedd naturiol ac yn bygwth safle Ysbyty Garn Goch.

Defnyddiwyd arian o'm cyllideb gymunedol cynghorwyr (yn lwfans amgylcheddol gynt) ar gyfer y prosiectau canlynol. Ceir manylion ar wefan y cyngor yn https://www.abertawe.gov.uk/cyllidebgymunedolcynghorwyr

1. 30/1/19 - Gosod arwyddion 'Cadwch yn Glir' y tu allan i'r orsaf dân ar Stryd y Gorllewin.

2. 7/3/19 - Newid amserau yn y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Gwahardd Aros ar Heol Belgrave.

3. 20/3/19 - Adeiladu pont gerddwyr bren newydd ar lwybr cyhoeddus rhif 72 yn Llewitha.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Uwch-gyflog (Aelod y Cabinet): £32,300 pro-rata (6 mis)

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 25/06/2019 |